

## **Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Mehefin 14eg 2025**

### **Presennol**

Cyng D.Morris, S.Roberts,G.Jones,C.Dixon,D.Griffiths a S.Jones.

### **Ymddiheuriadau**

Cyng S.Jones.

### **Cofnodion Mai 2025**

Cynnigodd Cyng G.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

### **Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

### **Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y cyngor i ofyn i gwmni Cynnal Tir a Choed, Trawsfynydd gwblhau'r gwaith uchod.

### **Materion yn codi.**

Maes parcio Dolfrwynog- Dim gwaith wedi ei gwblhau gan CNC ar y safle yma.Clerc i gysylltu a CNC unwaith yn rhagor.

Pont bren Dolgoed-Mae'r bont wedi cael ei thrwsio gan Cyngor Gwynedd.

Llwybr 80- Mae'r llwybr yn parhau i gael ei rwystro gan goed a dorrwyd. Mae'r clerc i gysylltu â CNC am y mater.

### **Cyfarfod yn swyddfa'r heddlu,Dolgellau.**

Mynychodd Cyng Morris y cyfarfod yn swyddfa'r heddlu.

Dywedodd Sgt Barlow, pennaeth y tîm plismona cymunedol, wrth y rhai oedd yn bresennol am ddibenion a gorsafoedd y gwasanaeth heddlu yn ystod cyfnod yr Haf.

Yn ymwneud â chyngor cymuned Ganllwyd, byddai'r tri llwybr gweithredu a restrir isod o fudd i'r gymuned;

- O ran cerbydau sy'n mynd dros y gyfyngiad cyflymder o 30 mya yn y pentref - cewch gysylltiad â'r tîm diogelwch ffyrdd 'Go Safe' a'u gwahodd i'r pentref i ymchwilio i'r broblem hon.
- I gael eu cadw'n gyfredol â digwyddiadau sy'n digwydd yn ein cymuned, dylai'r cyngor a phobl unigol ymuno â thudalen Facebook Heddlu Gogledd Cymru.
- Os digwydd unrhyw ddigwyddiad yn y pentref neu os oes unrhyw broblemau parhaus sy'n gofyn am sylw, dylai'r gymuned gysylltu â PCSO Gareth Jones neu Delyth Edwards yn syth. Gellir cael eu manylion ar wefan y heddlu a byddant yn cael eu dosbarthu gan y clerc.

### **Cynghorydd Sir.**

Ffermio bro- Mae'r Parc Cenedlaethol yn barod i ddarparu arian ar gyfer grŵp o ffermwyr i gynnal cynlluniau a fydd yn gwella'r cynefin. Mae manylion y cynllun ar gael ar eu gwefan.

Ysgol y pentref- Bydd Cyng Griffiths yn cysylltu a perchnogion yr ysgol i gael diweddariad ynglyn cynlluniau dyfodol yr ysgol a beth maen nhw'n bwriadu ei wneud gyda'r eiddo. Hoffai Cyngor Gwynedd brynu'r ysgol a adeiladu tai cymdeithasol yn y pentref. Bydd Cynghorydd Griffiths yn diweddarau'r cyngor yn sgil unrhyw ddatblygiadau.

Ail Gylchu- Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu strategaeth newydd er mwyn cyrraedd cyfradd llwyddiant ailgylchu o 70%. Ar hyn o bryd mae lefelau ailgylchu yn cwmpo islaw'r lefel darged hon. Mae manylion llawn ar gael ar eu gwefan.

Adran Priffyrdd- Mae'r adran wedi derbyn £2.1m ychwanegol am y flwyddyn ariannol hon.

Bydd y arian yn cael ei ddefnyddio i gynnal a chywiro difrod ar bob ffordd yn Gwynedd. Mae sawl prosiect yn ogystal â Dolgellau eisoes wedi'u hadnabod a fydd yn derbyn arian gan y ffynhonnell hon.

### **Cynllun datblygu lleol Eryri 2026-2041.**

Mae'r clerc wedi derbyn e-bost gan Barc Cenedlaethol Eryri yn amlinellu'r amserlen sy'n ymwneud â'r cynllun datblygu newydd hwn. Mae'r parc

cededlaethol yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd i ymgynghori â nhw ynglŷn â'r prosiect hwn trwy'r ddolen yn y e-bost a ddosbarthwyd gan y clerc. Gellir cael rhagor o fanylion ar wefan y Parciau Cenedlaethol.

### **Materion ariannol.**

Cyson Banc Mai 2025

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £3190.67

Derbyniwyd:

Preasept £1625.00

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £6.20

Rodd CFFI £50.00

Yn y banc diwedd mis £4658.87

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Mae'r clerc wedi cyflwyno'r arolwg cyflogaeth statudol ASHE blynyddol.

Cytunodd y cyngor i awdurdodi taliad sydd yn gysylltiedig â'r fferyllfeydd canlynol;

- Un llais Cymru £40.00
- Arcwilio Cymru £270.00 awdit 2021/22 anfoneb 012925.

**Cyrsiau Un Llais Cymru.**

Mae rhestr o gyrsiau sydd ar ddod wedi'i chyflwyno i'r cynghorwyr. Perswadiodd Cynghorwr Dixon y cynghorwyr i archwilio'r rhestr o gyrsiau a chofrestru yn y rheiny sy'n eu denu.

**Materion Cymunedol.**

Derbyniwyd cwyn am blanhigion gor dyfiedi sy'n rhwystor'r golwg i drafnidiaeth sy'n ceisio gadael o'r llecyn gyferbyn â'r gyffordd sy'n arwain at safle picnic Ty'n y Groes.

Mae'r cyngor cymuned yn ceisio eglurhad a yw'r gwaith ar y ffordd yn Ffordd Cefdeuddwr wedi ei gwblhau. Bydd y clerch yn ymgynghori â Gwasanaethau Ffordd Gwynedd.